**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 23ain Mai 2001**
**Eitem: 4**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Copiau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**23 MAI 2001**
**EITEM AR YR AGENDA RHIF 5**

## ADRODDIAD GWYBODAETH GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# YSTAFELLOEDD DOSBARTH SYMUDOL

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r aelodau o gyngor gan Glerc y Sir ynghylch yr angen am ganiatâd cynllunio ar gyfer lleoli ystafelloedd dosbarth dros dro / symudol ar dir y Cyngor Sir, a'r gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadu yn y dyfodol mewn perthynas â chynigion o'r fath.

### 2. CEFNDIR

2.1 Yn yr wythnosau diweddar, bu swyddogion yr is-adrannau Cynllunio, Addysg a Gwasanaethau Dylunio yn adolygu'r ffordd o fynd ati i brosesu a hysbysu cynigion i leoli ystafelloedd dosbarth dros dro ar dir y Sir.

2.2 Mewn perthynas â'r arolwg hwn, aethpwyd at Glerc y Sir am farn ynghylch yr angen am ganiatâd cynllunio mewn cysylltiad â lleoli ystafelloedd dosbarth o'r fath, ac yn arbennig i roi dehongliad a yw lleoli unedau 'symudol' yn cynrychioli datblygiad gweithredol neu newid defnydd tir mewn gwirionedd, gan olygu bod rhaid cyflwyno cais.

2.3 Mae diffiniad 'datblygiad' yn aml yn achosi dadlau cyfreithiol cymhleth, ac mae ymchwil Clerc y Sir i'r sefyllfa wedi arwain at gasgliadau sy'n gorfodi ffordd wahanol o fynd ati i drin cynigion ystafelloedd dosbarth dros dro.

### 3. CASGLIADAU

3.1 Mae Clerc y Sir wedi chwilio i mewn i'r sefyllfa gynllunio gyfreithiol yn bur fanwl a daw i'r casgliad na fyddai lleoli'r rhan fwyaf o'r mathau o ystafelloedd dosbarth symudol ar diroedd ysgolion dros dro yn dod o fewn diffiniad datblygiad fel arfer. Oni bai bod datblygiadau gweithredol adnabyddadwy megis gwaith mynediad, llawr caled a draeniad neu waith arall sydd â'r potensial o roi parhauster i'r adeilad, gan golli ei gymeriad 'symudol' a 'thros dro', yna ni ystyrir ei fod yn golygu unrhyw ddatblygiad gweithredol. Ystyrir hefyd nad yw'n golygu unrhyw newid defnydd sy'n creu datblygiad.

3.2 Ar sail cyngor Clerc y Sir, mae hi'n debygol mai ychydig achosion fydd ble bydd ar ystafelloedd dosbarth symudol ag angen caniatâd cynllunio.

3.3 Y bwriad yw cyflwyno trefn symlach o hysbysu'r Gwasanaethau Cynllunio o gynigion ar gyfer ystafelloedd symudol dros dro, fel bod modd asesu'r angen am ganiatâd cynllunio ac unrhyw ganiatâd cysylltiedig arall fesul achos. Dylai'r canlyniad terfynol olygu bod angen llai o geisiadau ffurfiol ac y bydd y gweithdrefnau'n cael eu cyflymu, a fydd er budd pawb.

### 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod yr aelodau'n cydnabod casgliadau'r adroddiad hwn.

**A. O. PHILLIPS**
**PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**23 MAI 2001**
**Eitem ar yr Agenda Rhif 6**

ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# Cynllun Datblygu Unedol Conwy
# Drafft Ymgynghori

## 1. **Cyflwyniad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn am ymateb gan y Cyngor i ddrafft ymgynghori CDU Conwy. Cyhoeddwyd y Cynllun ym mis Ebrill 2001 a gwahoddir ymatebion erbyn 18fed Mai 2001. Fel awdurdod lleol cyfagos, rhaid ymgynghori â Chyngor Sir Ddinbych yn statudol. Mae copi ymlaen llaw o'r adroddiad hwn wedi'i anfon ymlaen er mwyn cwrdd â'r dyddiad cau, yn amodol ar unrhyw newidiadau a wneir gan y Pwyllgor Cynllunio.

1.2 Mae'r adroddiad hwn ond yn ceisio darparu golwg cyffredinol ar y Cynllun ac amlygu unrhyw bryderon allweddol mewn perthynas ag amcanion, strategaeth a'r polisïau a'r cynigion dilynol. Bydd mân faterion yn cael sylw mewn trafodaethau rhwng Swyddogion y ddau awdurdod cynllunio lleol.

## 2. **Cefndir**

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyhoeddi ei CDU drafft, sy'n destun ymarferiad 6 wythnos o ymgynghori â'r cyhoedd, sy'n dod i ben ar 18fed Mai 2001. Yn wahanol i ymarferiad ymgynghori CDU Sir Ddinbych, ni threfnwyd bod unrhyw arddangosfeydd cyhoeddus i'w cynnal. Serch hynny, bu cyhoeddusrwydd ymlaen llaw ar ffurf taflen ym mil Treth y Cyngor ac ymgymerwyd ag ymgynghoriadau cymydog yng nghyffiniau dosraniadau.

2.2 Mae'r CDU yn cwmpasu'r cyfnod 15 mlynedd o 1998 tan 2013. Mae'n cwmpasu'r Sir gyfan, ac eithrio'r rhan honno o Barc Cenedlaethol Eryri sy'n dod o fewn ffin y Sir. Pan fydd wedi'i fabwysiadu, bydd yn disodli Cynllun Lleol Drafft Aberconwy, Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn, Cynllun Lleol Ardal Llandudno / Conwy, fersiwn Conwy Cynllun Fframwaith Clwyd a Chynllun Fframwaith Gwynedd.

2.3 Mae'r CDU yn ddrafft ymgynghori llawn, ond nid yw'n gynllun adnau, sy'n cynnwys datganiad ysgrifenedig a mapiau cynigion a hefyd nifer o bapurau cefndir. Mae'n cynnwys Rhan 1 strategol a Rhan 2 mwy manwl.

2.4 Efallai y cofia Aelodau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyflwyno gwrthwynebiadau a sylwadau o gefnogaeth i CDU Sir Ddinbych yn y cyfnod adnau. Roedd gwrthwynebiadau yn cynnwys, yn gyntaf, y math o ddatblygiad a ganiateir ym Mharc Busnes Llanelwy ac yn yr estyniad i'r dwyrain o'r Parc Busnes ac yn ail, diffyg cydnabod ardaloedd o dirwedd ar ymyl orllewinol Sir Ddinbych trwy ddynodiad tirwedd newydd.

## 3. Sylwadau ar y CDU Drafft

### 3.1 Rhan 1

3.1.1 Datblygwyd strategaeth y Cynllun trwy gyfres o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr busnes a grwpiau cymunedol. Yn nhermau cynnwys twf yn y dyfodol troswyd y rhain i'r canlynol:

- canolbwyntio datblygu yn y prif ardaloedd trefol
- canolbwyntio datblygu ar hyd y prif lwybrau cludiant
- canolbwyntio ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir sydd wedi'i neilltuo eisoes i'w ddatblygu

3.1.2 Felly mae Strategaeth y Cynllun yn debyg yn fras i strategaeth CDU Sir Ddinbych.

3.1.3 Mae rhyw 13 o bolisïau strategol yn trin y prif feysydd polisi yn y Cynllun ac yn gyffredinol cefnogir y rhain. Mae'r polisïau strategol allweddol yn cynnwys ST7 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer creu 6,440 o swyddi a pholisi ST12 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer 4500 o anheddau ychwanegol (caiff y rhain eu trin yn ddiweddarach yn yr adroddiad).

3.1.4 Mae'r prif fater yn ymwneud â pholisi ST8 sy'n clustnodi dau 'safle cyfle' yn Llanfairfechan ac i'r dwyrain o Abergele ar gyfer 'buddsoddi sylweddol o'r tu allan / cyflogaeth ar raddfa fawr'. Mae safle Abergele yn cynnwys 20 hectar o dir i'r de o Bensarn / Belgrano. Mae'n bryder nad oes dim polisi manwl wedi ei gynnwys yn Rhan 2 y Cynllun i roi cyfarwyddyd ar raddfa ac ar y math o ddatblygiad a fyddai'n dderbyniol.

### 3.2 Rhan 2

3.3 P 5 Yr Amgylchedd Naturiol

3.3.1 Mae'r polisïau'n ceisio diogelu adnoddau mwyaf gwerthfawr ardal y Cynllun hy cefn gwlad ac ardaloedd naturiol, ansawdd amgylcheddol, yr arfordir sydd heb gael ei ddatblygu ac adnoddau bywyd gwyllt ac yn gyffredinol fe'u cefnogir. Ymgymerwyd ag arolwg o rwystrau glas gyda'r nod o rwystrau glas mwy strategol a thymor hir. Mae hyn yn cyfannu'r ffordd o fynd ati yn CDU Sir Ddinbych ac mae'n cael ei groesawu.

3.3.2 Mae llawer o'r Sir wedi'i dynodi'n Ardal o Werth Tirweddol sydd at ei gilydd yn adlewyrchu'r Ardal Tirwedd Arbennig flaenorol. Un eithriad yw darn o dir i'r gorllewin o Henllan, yn fras rhwng yr ardal o amgylch Nantglyn a'r ardal o amgylch Groesffordd Marli. Mae'n syndod y rhoddir yr un gwerth tirweddol i ardal Mynydd Hiraethog o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy â llawer o weddill y Sir ac eto fe wrthwynebodd CBS Conwy y ffaith nad oedd gan ran Sir Ddinbych Mynydd Hiraethog ddynodiad tirwedd arbennig, o ystyried bod ei bwysigrwydd cenedlaethol honedig wedi'i nodi gan Adroddiad Hobhouse.

3.3.3 Mae gan Gyngor Sir Ddinbych bryderon ynghylch yr angen, y cyfiawnhad (heb fod yn seiliedig ar fethodoleg LANDMAP Cymru gyfan) a maint yr Ardal o Werth Tirweddol (ALV). Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gohirio rhoi dedfryd ar hyn tra'n aros canlyniad argymhellion yr Arolygydd i faterion tirwedd yn CDU Sir Ddinbych.

3.3.4 Er hynny, mae'r polisi fel y mae yn rhy gaeth a dylid ei ddiwygio fel a ganlyn: dylai'r Polisi gyfeirio at ardaloedd o Werth Tirweddol 'Lleol' neu 'Sirol' i gydnabod nad yw'r rhain yn ardaloedd o werth tirweddol Cenedlaethol / statudol. Mae'r polisi fel y mae wedi'i eirio yn rhy gaethiwus a dylid ei ddiwygio i adlewyrchu statws lleol y dynodiad. Awgrymu dileu 'yn unig' yn yr ail frawddeg ac ychwanegu maen prawf 'neu mae'r angen am ddatblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y dynodiad'. Bydd hyn yn

ychwanegiad pwysig gan efallai'n wir y bydd rhai ffurfiau o ddatblygu e.e. Chwarelydda, telegyfathrebu a thyrbinau gwynt yn cael 'effaith andwyol o bwys ar nodweddion sy'n cyfiawnhau'r dynodiad' fel ALV ond ni ddylai'r datblygiadau hyn fod yn destun embargo hollgynhwysfawr ar draws darnau mawr o dir yng Nghonwy.

3.4 Pennod 6 - Yr Amgylchedd Adeiledig

3.4.1 Mae'r Cynllun yn ceisio gwarchod a gwella adeiladau a safleoedd o werth pensaernïol neu ddiddordeb hanesyddol ac yn gyffredinol fe'i cefnogir.

3.5 Pennod 7 - Diwydiant a Swyddfeydd

3.5.1 Mae'r Cynllun yn ceisio clustnodi a diogelu cyflenwad digonol o dir diwydiant a swyddfeydd priodol mewn mannau addas, arallgyfeirio a chryfhau'r economi wledig ac annog ailddefnyddio tir ac adeiladau segur a thir ac adeiladau nas defnyddir ddigon ac yn gyffredinol fe'i cefnogir.

3.5.2 Yn seiliedig ar y cyfuniad o gyfraddau derbyn yn y gorffennol a newidiadau tebygol yn y boblogaeth a'r gweithlu a gan geisio cadw diweithdra yn 3% mae angen darparu rhyw 6,440 o swyddi dros gyfnod y Cynllun. O ystyried problemau economaidd a photensial amcan 1, defnyddiwyd lwfans o 50% ar gyfer hyblygrwydd a dewis o safleoedd. Gan gymryd dwysedd swyddi canolig o tua 40 swydd yr hectar, mae hyn yn arwain at ofyniad o tua 120 hectar. Mae'r Cynllun yn neilltuo 98 hectar o dir ar gyfer datblygu diwydiant a swyddfeydd o ansawdd uchel a 22 hectar o dir ar gyfer datblygu diwydiant a swyddfeydd lleol.

3.5.3 Mae'r dosraniad ail fwyaf yn cynnwys 16 hectar o dir yn Nwyrain Abergele rhwng cylchfan Ffordd Rhuddlan a Phensarn ar gyfer datblygiad B1, B2 neu B8. Gorwedd y safle wrth ochr ymyl gorllewinol y 'safle cyfle' yn Nwyrain Abergele, a gwasanaethir y ddau safle gan ffordd newydd sy'n rhedeg o'r A55(C) / A547 cylchfan Ffordd Rhuddlan at ffordd arfordir yr A548 ym Mhensarn. Mae rhyw 30.6 hectar o dir wedi'i neilltuo hefyd ar gyfer datblygiad B1, B2, & B8 o ansawdd uchel yn Nhir Llwyd, Bae Cinmel gyda gwelliannau i St Asaph Avenue i fynd gyda hynny (amlinellir ym mhara 3.11.1). Ystyrir y dylai gwelliannau i'r A547 o'i chyffordd â St Asaph Avenue i Ruddlan fynd gyda datblygiad y safle hwn hefyd. Efo'i gilydd mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn y tir cyflogaeth ar hyd rhan ddwyreiniol y rhimyn arfordirol a bydd angen ei fonitro dros amser yn nhermau asesu'r oblygiadau i ddosraniadau cyflogaeth yn Sir Ddinbych ac o bosibl datblygu ffordd gyd-drefnus o fynd ati.

3.5.4 Mae polisi IND4 yn cynnwys ffordd debyg o fynd ati sy'n seiliedig ar feini prawf i bolisi EMP12 Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â chynigion datblygu cyflogaeth mawr nad oes modd eu cynnwys naill ai o fewn ffiniau datblygu neu ar safleoedd a neilltuwyd. Er hynny, ystyrir bod polisi'r Cyngor hwn yn fwy caeth, yn ymgorffori amddiffyniadau yn ymwneud â cholled annerbyniol tir amaethyddol, tirwedd ayb, osgoi cynigion hapfuddsoddol, gan sicrhau ei fod ar gyfer un datblygiad mawr a gan osod cyfyngiadau ar derfynau amser unrhyw ganiatâd cynllunio. Ystyrir y dylai polisi IND4 gynnwys amddiffyniadau o'r fath hefyd.

3.6 Pennod 8 - Twristiaeth

3.6.1 Mae'r Cynllun yn ceisio cadw a datblygu amrywiaeth o lety o ansawdd da i dwristiaid a chefnogi datblygiad amryw o atyniadau a chyfleusterau ac yn gyffredinol fe'i cefnogir. Mae diogelu Harbwr y Foryd ym mholisi T13 ar gyfer datblygiad twristiaid a hamdden yn cael ei groesawu gan fod hyn yn cyfannu polisïau yn CDU Sir Ddinbych.

3.6.2 Mae polisi T16 yn darparu ffordd o fynd ati sy'n seiliedig ar feini prawf gyda chynigion ar gyfer 'pentrefi gwyliau ar raddfa fawr'. O ystyried bod llawer o'r Sir naill ai yn y Parc

Cenedlaethol neu wedi'i chlustnodi'n Ardal o Werth Tirweddol mae'n ymddangos mai cymharol ychydig o safleodd addas fyddai ar gyfer datblygiad £100m o'r fath yn nhermau effaith ar y dirwedd. Ar ben hynny, mae'r maen prawf cyntaf yn mynnu bod y datblygiad yn 'gyfan gwbl hunangynhwysol yn nhermau'r gwasanaethau a'r cyfleusterau tebygol a fydd eu hangen gan ei drigolion', ac fe ystyrir y byddai hynny'n cyfyngu'r effeithiau deilliedig posibl i'r economi leol yn nhermau siopau, gwasanaethau a bwytai ayb.

3.7 Pennod 9 - Adwerthu

3.7.1 Mae'r polisïau yn ceisio, yn gyntaf, cynnal a gwella rôl Llandudno fel canolfan siopa is-ranbarthol a rôl Bae Colwyn fel prif ganolfan siopa ac yn ail, cryfhau bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd amrywiol ganolfannau siopa. Ymhlith eraill, mae tir wedi'i ddiogelu ar gyfer bwyd / cyfleuster yn Nghae'r Bee yn Abergele ac ar gyfer nwyddau swmpus a nwyddau mewn crynswth/cadw mewn warws i'r dwyrain o Abergele. Mae'r ail safle yma wedi'i neilltuo hefyd ar gyfer diwydiant strategol o ansawdd uchel a datblygiad swyddfeydd ac nid yw hi'n glir pa un ai diwydiant / datblygiad swyddfeydd ynteu adwerthu a fyddai'n cael blaenoriaeth.

3.7.2 Mae'r Cyngor hwn yn nodi er bod y Cynllun yn ceisio cyfeirio datblygiad adwerthol newydd i ganol trefi, nad yw'n darparu polisi clir sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu cynigion adwerthol y tu allan i ganol trefi.

3.8 Pennod 10 - Tai

Gofyniad / Darpariad Tai

3.8.1 Mae'r Cynllun yn ceisio darparu nifer a dosbarthiad digonol o dai, cyfyngu anheddau newydd y tu allan i ardaloedd trefol / pentrefi a chynorthwyo pob rhan o'r gymuned i sicrhau tai addas ac yn gyffredinol fe'i cefnogir.

3.8.2 Gwneir darpariaeth ar gyfer 4500 o anheddau ychwanegol dros gyfnod y Cynllun. Mae ffordd o fynd ati a arweinir gan bolisi wedi'i fabwysiadu sy'n ceisio lleihau'r gofyniad twf tai o ystyried bod maint y tir y gellir ei ddatblygu'n mynd yn brin mewn rhai ardaloedd ar hyd yr arfordir. Mae'r Cynllun yn bwriadu lleihau lefelau twf tai o 10.6 % yn y 90au i 9% dros gyfnod y Cynllun (300 annedd y flwyddyn). Mae hyn yn gynnydd % tebyg i CDU Sir Ddinbych. Caiff y gofyniad ei gwrdd yn y ffyrdd canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| ◆ | Addasu'r adeiladau presennol | (rhagdybied 80% o dueddiadau'r gorffennol) | 754 |
| ◆ | Safleoedd tai ymrwymedig | (431 safle bychan / 2423 safle mawr) | 2,854 |
| ◆ | | | |
| ◆ | Safleoedd ar hap | (safleoedd o 10 uned neu fwy) | 167 |
| ◆ | Safleoedd tir llwyd | (rhagdybied 35%) | 646 |
| ◆ | Dosraniadau newydd | | 708 |
| | Is-Gyfanswm | | 5,129 |
| | Tynner safleoedd tai ymrwymedig a ddiystyriwyd | | -629 |
| | Cyfanswm Gofyniad / Darpariad Tai | | **4,500** |

3.8.3 Gwnaed 'arolwg adnoddau tir' o ardal y Cynllun, wedi'i addasu o Gronfa Ddata Defnydd Tir Cenedlaethol Lloegr i asesu'r cyfraniad tebygol gan safleoedd tir llwyd. O'r tir llwyd a glustnodwyd dim ond rhyw 35% sy'n debygol o gael ei ddatblygu dros gyfnod y Cynllun. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unrhyw dir neu safleoedd a allai gael eu cyfrif mewn man arall yn y tabl uchod, er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith.

3.8.4 Dywed y Cynllun y gallai wneud darpariaeth ar gyfer 4421 o anheddau, sydd fymryn yn llai na'r gofyniad o 4500 o anheddau heb wneud dosraniadau newydd. Serch hynny, mae'r Cynllun yn ystyried y byddai hyn yn arwain at orgrynhoi datblygiad yn is-ardal Towyn & Bae Cinmel, a fyddai'n tyfu o ryw 1200 o anheddau neu 35 % dros gyfnod y Cynllun. I ddarparu mwy o ddewis tai lleoliadol, mae rhyw 629 o anheddau yn yr is-ardal yma wedi'u diystyru o'r tabl uchod a'u darparu yn rhywle arall yn y Sir ar ffurf dosraniadau newydd.

3.8.5 Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi pryder Conwy ynghylch lefel yr ymrwymiadau yn is-Ardal Towyn / Bae Cinmel ond byddai'n awgrymu hyd yn oed er bod rhyw 600 o anheddau wedi'u diystyru, y gellid eto eu gweithredu yn ystod cyfnod y Cynllun gan nad oes polisïau mewn perthynas a dad-neilltuo neu beidio adnewyddu caniatâd. Mae hyn yn rhan o'r CDU y bydd angen ei monitro dros amser i benderfynu a fydd unrhyw oblygiadau o ran y ddarpariaeth tai yn ardal Y Rhyl yn yr arolwg cyntaf o CDU Sir Ddinbych.

Tai mewn Mân Aneddiadau

3.8.6 Mae'r Cynllun yn clustnodi, drwy symbol ar y mapiau cynigion (ond dim ffin datblygu), nifer o fân aneddiadau y byddir yn caniatáu anheddau unigol o'u mewn ar ffurf mewnlenwi neu dalgrynnu ar yr amod ei fod i fodloni angen lleol profedig ac nad oes dim anheddau gwag / plotiau adeiladu / adeiladau i'w haddasu yn yr anheddiad. Byddai'r Cyngor hwn yn amau priodoldeb cyflwyno agweddau 'angen lleol' i'r polisi yng nghyd-destun y canllawiau cynllunio presennol ac arfaethedig yng Nghymru, nad yw'n mynnu bod rhaid profi angen lleol.

## 3.9 Pennod 11 - Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol

3.9.1 Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau y darperir cyfleusterau adloniant a lle agored o safon i gwrdd ag anghenion y gymuned a chyfleusterau iechyd a chyfleusterau addysgol a diwylliannol ac y darperir telegyfathrebu, ynni adnewyddadwy a thriniaeth gwastraff priodol.

## 3.10 Pennod 12 - Mwynau

3.10.1 Mae'r Cynllun yn ceisio galluogi ennill a gweithio mwynhau yn unol ag anghenion a glustnodwyd tra'n diogelu'r amgylchedd.

## 3.11 Pennod 13 - Cludiant

3.11.1 Mae'r Cynllun yn ceisio annog datblygiad a defnydd dulliau cludiant integredig sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd a rheoli'r system briffyrdd mewn modd cynaladwy.

3.11.1 Yn nhermau gwelliannau ffyrdd mae nifer o gynlluniau sy'n agos iawn at Sir Ddinbych, sef:

| | | |
|---|---|---|
| • A548 i'r A547 | Pensarn i Ffordd Rhuddlan | Ffordd osgoi |
| • A547 i'r A548 | Ffordd Rhuddlan i'r De Ddwyrain o Abergele (Ffordd Llanfair) | Ffordd osgoi |
| • A548 | St Asaph Avenue / Ffordd Towyn, Bae Cinmel | Gwella |
| • A547 i'r A55 | Tollborth i Abergele | Gwella |
| • A548 | Pont Reilffordd Bae Cinmel | Gwella |

3.11.2 Byddai'r Cyngor hwn ond yn gwneud y sylw nad yw pob un o'r cynlluniau hyn yn ymddangos ar y mapiau cynigion.

## 4. CASGLIADAU

4.1 Mae'r Cyngor yn croesawu cyhoeddi'r CDU drafft ac yn dymuno'n dda i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrth yrru'r Cynllun yn ei flaen. A siarad yn gyffredinol mae'r Cyngor yn cefnogi strategaeth, polisïau a chynigion y Cynllun sydd naill ai'n gyflenwol i'r Sir yma neu heb fod yn gwneud niwed iddi. Er hynny, mae nifer o bryderon, fel y'u hamlinellwyd uchod, y mae'r Cyngor yn dymuno eu codi yn y cyfnod ymgynghori drafft hwn.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod yr adroddiad hwn i'w anfon ymlaen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel ymateb y Cyngor hwn i CDU drafft Conwy.

5.2 Bod y Cyngor hwn yn gwrthwynebu:

i. polisi ST8 ynglyn â'r safle cyfle i'r dwyrain o Abergele, fel y nodwyd yn mhara 3.1.4 yr adroddiad hwn.
ii. polisi IND4 ynglyn â datblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr, fel y nodwyd ym mhara 3.5.4 yr adroddiad hwn.
iii. polisi E6 ynglyn ag Ardaloedd o Werth Tirweddol, fel y nodwyd ym mhara 3.3.4 yr adroddiad hwn.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**23 MAI 2001**
**Eitem ar yr Agenda Rhif 7**

ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Drafft Ymgynghori Nodyn Cyngor Technegol Diwygiedig 18 Cludiant

1 **Cyflwyniad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yn gofyn am ymateb gan y Cyngor i Ddrafft Ymgynghori Nodyn Cyngor Technegol Diwygiedig 18 Cludiant Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar ddiwedd Mawrth gan y Cynulliad a gofynnir am ymatebion erbyn 21ain Mai. Mae copi ymlaen llaw o'r adroddiad hwn wedi'i anfon at y Cynulliad er mwyn cwrdd â'r dyddiad cau yma a bydd unrhyw newidiadau neu sylwadau pellach ar yr adroddiad hwn yn cael eu hanfon ymlaen yn briodol.

1.2 Mae Gwasanaethau Cynllunio hefyd wedi ceisio cyd-drefnu ymatebion gan is-adrannau eraill, ac mae ymateb Pennaeth Priffyrdd a Chludiant wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

2 **Cefndir**

2.1 Mae Canllawiau Cynllunio yng Nghymru wedi'u cynnwys yn bennaf ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cael ei gefnogi gan gyfres o 19 Nodyn Cyngor Technegol (TANau). Bydd yr Aelodau'n cofio bod adroddiad ar y ddogfen Polisi Cynllunio Cymru (PPW) Ddiwygiedig Ddrafft wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar 25ain Mawrth. Mae diwygiad cyntaf y TAN ar Gludiant wedi'i ysgrifennu i gyfannu'r PPW Drafft.

2.2 Bwriad y TAN diwygiedig yw 'hyrwyddo amcanion y Cynulliad i gael gwell integreiddiad rhwng cynllunio a chludiant a rhwng gwahanol ddulliau cludiant a chyflawni patrymau datblygu mwy cynaladwy. Mae'n darparu cyngor ymarferol ar sut y gall cynlluniau datblygu unedol a phenderfyniadau ar ddatblygiadau newydd helpu i gyflawni'r amcanion hyn'.

2.3 Mae'r prif newidiadau i'r cyngor yn cynnwys y canlynol:

- diwygio'r fframwaith TAN i bwysleisio blaenoriaethau cynllunio defnydd tir a chludiant y Cynulliad;
- adran newydd yn rhoi cyngor ar yr integreiddiad rhwng cynllunio defnydd tir a chludiant yn cynnwys y berthynas rhwng CDUau, Cynlluniau Cludiant Lleol (LTPau), newid hinsawdd ac ansawdd awyr lleol a lleihau traffig y ffyrdd;
- adran newydd yn rhoi cyngor ar leoli datblygiadau yn cynnwys cyngor penodol ar ardaloedd gwledig a hygyrchedd;
- cyngor diweddaredig ac ychwanegol ar gerdded a beicio, cludiant cyhoeddus a rheolaeth traffig, rheoli galw a pharcio ceir;
- adran newydd yn rhoi cyngor ar faterion symud o gwmpas a mynediad ar gyfer yr anabl;
- cyngor diweddaredig ar gynllunio ar gyfer seilwaith cludiant yn cynnwys adrannau newydd ar gludiad, rheilffyrdd a lliniaru effeithiau amgylcheddol;

- adran newydd ar weithrediu, sy'n darparu cyngor ar fynediad i ffyrdd, asesiadau cludiant, amodau cynllunio, rhwymedigaethau cynllunio a chynllluniau teithio

3 **Sylwadau Cyffredinol**

3.1 Mae darparu cyfarwyddyd diwygiedig sy'n ceisio peri integreiddio cynllunio defnydd tir a chludiant yn agosach, gostyngiad ym maint teithio â char a phatrwm teithio mwy cynaladwy yn cael ei groesawu o safbwynt cynllunio ac o safbwynt priffyrdd a gwasanaeth cludiant.

3.2 Nid yw'n ymddangos bod fformat a chynnwys y TAN yn darparu cyngor 'technegol, sef bwriad y Cynulliad. Yn lle hynny ymddengys fod y ddogfen yn cynrychioli cyfaddawd anfoddhaol o bolisi ac eglurhad neu gyngor pellach.

3.3 Mae'r ddogfen yn codi cwestiynau pwysig ynghylch y berthynas rhwng awdurdodau *priffyrdd* lleol ac awdurdodau *cynllunio* lleol yn arbennig gan fod llawer o'r 'cyngor' yn ymwneud mwy â materion priffyrdd a chludiant a mesurau megis parcio ar y stryd, yr ymdrinnir â hwy'n bennaf gan ddeddfwriaeth heblaw deddfwriaeth gynllunio.

3.4 Mae'r ddogfen yn cyfeirio at lawer o fesurau megis Cynlluniau Cludiant Lleol, Cynlluniau Cludiant Gwyrdd, proffiliau Hygyrchedd, ayb, y mae angen eu hystyried neu eu hymgorffori ym mharatoad CDU. Canlyniad hyn yw y bydd CDUau yn mynd yn ddogfennau mawr, cymhleth a gorddyrys gydag oedi'n dilyn wrth eu paratoi neu eu hadolygu. Byddai'r senario hwn yn groes i ganllawiau'r Cynulliad ym mhara 5 a 10 Canllawiau Cynllunio (C)CDUau y dylent fod yn glir, cryno a phenodol. Yn wir, dywed para 23 *'..... bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn barod i ymyrryd i ddileu neu addasu polisïau sy'n trin pynciau eraill neu sy'n orfanwl* '. Mae'r Cyngor yn ystyried, er mwyn i CDUau gael eu paratoi, mabwysiadu a'u hadolygu mewn amser rhesymol y dylai cynlluniau datblygu fod yn fframwaith bras o bolisïau cynllunio y gellir ymgymryd â strategaethau, mesurau ayb eraill ohono a'u gweithredu.

3.5 Mae'r TAN yn dilyn ymlaen o, ac yn gyffredinol yn adlewyrchu'r canllawiau a'r cyngor yn PPG 13 Lloegr. Serch hynny, mae Gwasanaethau Cynllunio a Phennaeth Priffyrdd a Chludiant yn ystyried eu bod yn aml yn hepgor y manylder sydd ei angen ar gyfer amcanion polisi llywodraeth. Tra bod PPGau Lloegr yn cynnwys ffigurau yn nhermau canran datblygiad ar dir llwyd, dwyseddau tai isaf a safonau parcio ceir uchaf, dim ond cyfarwyddyd cyffredinol y mae'r TANau yn ei ddarparu.

3.6 Mae Pennaeth Priffyrdd a Chludiant yn ystyried nad yw'r TAN yn darparu dimensiwn digon Cymreig yn nhermau cydnabod cymeriad gwledig a seilwaith cludiant gwael llawer rhan o Gymru, yn cynnwys Sir Ddinbych a'r oblygiadau i awdurdodau lleol wrth ddefnyddio cyfarwyddyd a chyngor technegol y Cynulliad.

4 **Sylwadau Penodol**

4.1 Cynlluniau Datblygu Unedol a Chynlluniau Cludiant Lleol

Para 7
Mae'r cyfarwyddyd yn aneglur ynghylch pa un a yw paratoi Cynllun Cludiant Lleol yn ofyniad statudol.

Para 9
Tra’n derbyn bod llawer o faterion cludiant yn strategol, yn cynnwys sawl awdurdod, efallai nad yw’r trefniadau gweithio cydweithrediadol sy’n bodoli yng Nghymru yn ddigon grymus i fynd i’r afael â materion dyrys. Yng Nghymru nid oes dim fframwaith ffurfiol ar gyfer Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol neu Strategaethau Cludiant Rhanbarthol fel sydd yn Lloegr.

Para 10
Fe dderbynnir o safbwynt cynllunio ac o safbwynt priffyrdd a chludiant bod angen i Gynlluniau Cludiant Lleol a CDUau fod yn gyson ac integredig yn nhermau strategaeth, polisïau a phrosiectau ayb. Serch hynny, ni dderbynnir y gellir bob amser eu paratoi neu eu hadolygu’n gyfochrog. Fe all ymgymryd ag ymgynghori cyhoeddus ar y ddwy ddogfen gyda’i gilydd achosi dryswch i’r cyhoedd a bod yn anodd yn logistaidd. Ar ben hynny, rhaid i CDU fod yn destun sawl cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ac ymchwiliad cyhoeddus i wrthwynebiadau, ond nid yw’n ymddangos mai fel yna y mae hi gyda LTPau. Byddai’n afresymol dal cynlluniau datblygu yn ôl hyd nes bod cynlluniau cludiant lleol naill ai wedi’u paratoi neu eu hadolygu. Gan fod cynlluniau datblygu yn cymryd mwy o amser i’w paratoi a’u mabwysiadu byddai hefyd yn afresymol dal paratoad LTP yn ôl.

Para 11
Dywed y cyfarwyddyd y dylai CDUau a LTPau fod yn destun gwerthuso i sicrhau bod y mesurau a gynigiant yn gynaladwy. Serch hynny, nid yw’n glir pa un ai gwerthusiad amgylcheddol ynteu gwerthusiad cynaladwyedd yw hynny a sut y mae’r ddau yn wahanol.

Para 13
Fe dderbynnir bod Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i gynnwys polisïau ar reolaeth traffig. Serch hynny, dywed y cyngor yn y TAN drafft bod hyn yn berthnasol pa un a oes oblygiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol o ran defnydd tir. Mae hyn yn wyriad sylweddol oddi wrth, ac yn cyfuno’r gwahaniaethau sefydledig rhwng materion a gaiff eu trin yn draddodiadol gan awdurdod priffyrdd a gan awdurdod cynllunio lleol. Nid yw’r cyngor yn rhoi digon o wybodaeth i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu’r math o oblygiadau anuniongyrchol y dylid eu hymgorffori mewn CDU. Gall hyn roi awdurdodau cynllunio lleol mewn sefyllfa anodd yn gwrthsefyll cynnwys lliaws cyfan o fesurau, polisïau a chynlluniau mewn CDUau, megis polisïau a thaliadau parcio ar y stryd.

Para 14
Fe dderbynnir y dylai CDUau gynnwys polisïau a chynigion ar ddatblygiad cyffredinol y rhwydwaith cludiant a gwasanaethau cysylltiedig. Serch hynny, gallai’r cyfarwyddyd nodi’n fuddiol y dylai hyn ond ymwneud ag achosion ble mae oblygiadau defnydd tir a chynllunio. Mae’r cyfarwyddyd yn nodi ‘y gall polisïau a chynigion ......... gynnwys cyd-drefnu gwasanaethau cludiant cyhoeddus, ...’ na ystyrir ei fod yn fater cynllunio.

Dywed y cyfarwyddyd ‘*y dylai CDUau gynnwys arwydd o’r raddfa amser a’r blaenoriaethau ar gyfer polisïau a chynigion cludiant a ddylai adlewyrchu’r hyn a gynhwysir yn yr LTP*’. Gellid dehongli bod CDUau yn dod yn ddogfennau hyrwyddol a’u bod yn cael eu defnyddio i ychwanegu ‘cyfreithlondeb’ at gynlluniau eraill drwy ymgorffori agweddau o fewn dogfen / proses statudol. Mae hyn yn groes i’r cyfarwyddyd yn PG(W)CDUau sy’n arwyddo bod CDUau yn fframwaith cynllunio defnydd tir sy’n cynnwys polisïau cryno yn hytrach na rhai maith, cymhleth, annelwig neu orfanwl. Ystyrir y gallai ymgorffori gormod o fanylion o Gynlluniau a strategaethau eraill ddal paratoad CDU yn ôl yn ddiangen.

4.2 Lleoliad Datblygiad

Para 18
Dylai'r cyfarwyddyd wneud yn glir yn yr ail bwynt bwled beth a olygir gan 'arwyddocaol' yn nhermau cynlluniau tai newydd sy'n cynnwys cymysgedd o wahanol ddefnydd yn cynnwys siopau, gwasanaethau a ble mae'n briodol datblygiad cyflogaeth.

4.3 Ardaloedd Gwledig

Para 21
Awgrymir y gellid darparu cyfarwyddyd ychwanegol ynghylch y cydbwysedd rhwng hyrwyddo ailddefnydd adeiladau gwledig (ee fel rhan o gynlluniau arallgyfeirio ffermydd neu ar gyfer tai) a chynaladwyedd yn nhermau lleihau dibyniaeth ar y car preifat. Nid yw naill ai drafft Polisi Cynllunio Cymru na'r nodyn cyngor hwn yn rhoi cyfarwyddyd clir ar ba un y dylid ei ystyried yn flaenoriaeth yn nhermau polisi.

4.4 Hygyrchedd

Para 23
Sylweddolir yr angen i sicrhau bod datblygiad newydd yn hygyrch. Serch hynny, yn nhermau paratoi proffiliau hygyrchedd mae'r cyfarwyddyd yn aneglur ynghylch pa un ai cyfrifoldeb priffyrdd ynteu cyfrifoldeb cynllunio yw eu paratoad. Yn nhermau ceisiadau cynllunio gallai'r cyfarwyddyd annog neu fynnu bod hyrwyddwyr datblygiadau 'mawr' yn ymgymryd â hwy.

4.5 Cerdded & Beicio

Para 24
Tra'n croesawu pwysigrwydd cerdded fel rhan o system gludiant a defnydd tir gynaladwy mae'n siomedig nad oes Strategaeth Gerdded Genedlaethol wedi'i pharatoi eto.

Pwynt bwled cyntaf: Nid yw'r Cyngor yn ystyried mai swyddogaeth CDUau yw archwilio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cerddwyr. Mae hyn yn gyfrifoldeb yr awdurdod priffyrdd lleol wrth lunio LTPau neu wrth gynghori ar gynigion CDU a cheisiadau cynllunio, ble mae'n briodol.

Ail bwynt bwled: Ni ystyrir mai swyddogaeth CDUau yw 'hyrwyddo' mentrau sy'n annog cerdded, megis ffyrdd diogel i'r ysgol oni bai bod gan brosiect penodol oblygiadau defnydd tir y mae angen mynd i'r afael â hwy.

Nawfed pwynt bwled: Fe dderbynnir y gall CDUau a cheisiadau cynllunio greu llwybrau cerddwyr sy'n darparu amgylchedd diogel i gerddwyr ar hyd glannau afonydd, llwybrau halio camlesi neu reilffyrdd nas defnyddir. Serch hynny, fel y'i hysgrifennwyd, mae'r cyfarwyddyd yn methu â dangos rôl a chyfrifoldebau llawer o rai eraill wrth greu a chynnal llwybrau o'r fath.

4.6 Beicio

Para 25
Mae'r cyngor yn cyfeirio at darged y Strategaeth Feicio Genedlaethol o ddyblu nifer y teithiau a wneir â beic erbyn 2002 (yn seiliedig ar ffigurau 1996). Gyda llai na blwyddyn i fynd fe fyddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r nodyn cyngor neu'r

ddogfen PPW wedi ystyried pa un a oedd hyn yn debygol o gael ei gyflawni ac os nad oedd pa fesurau eraill y gellid eu cyflwyno.

Para 26
Mae'r chweched pwynt bwled yn cyfeirio at '... *ailbennu lôn gerbydau i feicwyr'* sy'n ymddangos ei fod yn gwrth-ddweud y seithfed pwynt bwled '*gwahanu beicwyr oddi wrth y lôn gerbydau ble mae'n bosibl* ...'.

4.7 Cludiant Cyhoeddus

para 28
Dywed y cyfarwyddyd '*Ble mae angen gwell gwasanaethau neu seilwaith cludiant cyhoeddus i wasanaethu datblygiad newydd, ond nad yw darpariaeth ar sail fasnachol yn hyfyw, fe all cyfraniad gan y datblygwr tuag at lefel o wasanaeth a gytunir neu ddarpariaeth seilwaith fod yn briodol*'. Tra bod y trefniant hwn yn cael ei groesawu, dylai'r cyfarwyddyd gael ei eirio'n gryfach fel ei fod yn dod yn ofyniad. Mae hi'n aneglur hefyd a yw hyn i'w gyflawni yn y pen draw drwy ddeddfwriaeth gynllunio ynteu deddfwriaeth priffyrdd a chludiant. Mae profiad gyda dosraniadau yn CDU Sir Ddinbych wedi amlygu'r anawsterau wrth geisio creu cludiant integredig, yn arbennig darparu cyfleusterau a gwasanaethau cludiant cyhoeddus, fel rhan o gynlluniau datblygu mawr. Byddai cyngor technegol pellach i'w groesawu.

4.8 Rheoli Galw

Para 40
Ni ystyrir bod mater rheoli'r galw am gludiant drwy fesurau megis codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a lefi parcio gweithle yn berthnasol i'r rhan fwyaf o Gymru (fel y derbynnir yn y cyfarwyddyd). Ar ben hynny mae'r cyfarwyddyd yn cyfeirio at y rhain yng nghyd-destun cynlluniau cludiant lleol yn hytrach na CDUau gan nad yw yn fater cynllunio.

4.9 Parcio Ceir

Para 43
Fe dderbynnir y dylai cydweithredu ddigwydd rhwng awdurdodau lleol cyfagos wrth baratoi strategaeth barcio gyffredin sy'n cynnal y sefyllfa gystadleuol bresennol rhwng canol trefi. Serch hynny, ni ystyrir bod cydweithrediad gwirfoddol yn rhoi sylfaen digon cryf i wneud cynnydd gwirioneddol wrth leihau lefelau parcio ceir, o gymharu ag RPG a gynhyrchwyd yn ffurfiol.

Para 44
Tra'n cydnabod yr angen i leihau parcio ceir (yn arbennig yng nghanol trefi), gyda'r nod o greu patrwm teithio mwy cynaladwy, dylai'r cyfarwyddyd gydnabod bod taliadau parcio ceir yn ffynhonnell refeniw werthfawr i awdurdodau lleol.

Para 46
Mae'r cyfarwyddyd yn gorchymyn nad yw safonau parcio isaf bellach yn briodol ond nid yw'n darparu safonau parcio uchaf megis ag yn achos PPG 13 yn Lloegr. Gallai'r cyngor awgrymu amrediad o ffigurau 'meincnodi' neu gyngor ar lunio safonau addas ar gyfer gwahanol ardaloedd. Mae Pennaeth Priffyrdd a Chludiant yn bryderus hefyd ynghylch oblygiadau lleihau parcio ceir ar y safle yn nhermau annog parcio ar y stryd yn y gymdogaeth leol. Bydd rhaid i'r mesurau lliniaru angen naill ai yn nhermau sicrhau gostyngiad yn nefnydd ceir sy'n gysylltiedig â'r datblygiad neu yn nhermau cyfyngiadau parcio, cynlluniau parcio preswylwyr a mesurau eraill i reoli'r effaith ar y gymdogaeth gael eu hystyried ac o bosibl eu hariannu gan y datblygwr.

4.10 Symud o gwmpas a Mynediad i'r Anabl

Para 50
Awgrymir bod 'pobl gydag anableddau' yn derm mwy priodol.

4.11 Ffyrdd

Para 53
Dywed y cyfarwyddyd '*Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio polisïau CDU a phenderfyniadau rheoli datblygu i leihau'r angen i ddefnyddio cefnffyrdd a ffyrdd drwodd eraill ar gyfer siwrneiau lleol byr, yn arbennig ble maent yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith strategol*'. Serch hynny, yn realistig mae'n amheus a allai CDU leihau'r lefelau traffig presennol ar gefnffyrdd, yn hytrach na pheidio â chreu traffig ychwanegol. Fe all fod achosion hefyd ble y gall ffyrdd eraill yn lle cefnffyrdd fod ag ystyriaethau sylweddol yn ymwneud â'r amgylchedd, diogelwch ac amwynder ee. Bae Colwyn. Llanelwy.

Mae'r cyfarwyddyd yn nodi y '*Dylai awdurdodau lleol glustnodi'r ffyrdd drwodd hyn fel coridorau ar gyfer symud y bydd datblygiad yn gyfagos iddynt yn cael ei wrthwynebu*'. Serch hynny, ymddengys fod hyn yn gwrth-ddweud para 3.4.2 Drafft Polisi Cynllunio Cymru sy'n cyfeirio at lwyddiant datblygiad economaidd ar hyd coridor yr A55 yn cael ei gynnal.

Para 56
Ymddengys fod y cyfarwyddyd yn awgrymu y dylai cynigion gwella ffyrdd neu ffyrdd newydd ar gyfer ffyrdd lleol yn y rhwydwaith prif ffyrdd gael eu hamlinellu yn y CDU i ddarparu'r modd o archwilio'r angen a hefyd y cyfliniad. Er hynny nid yw'r cyfarwyddyd yn nodi a yw hyn yn ychwanegol at ynteu yn lle gweithdrefnau ymgynghori a chymeradwyo dan ddeddfwriaeth priffyrdd.

Para 59
Ychydig gyfarwyddyd y mae'r cyngor yn ei ddarparu ar yr ystyriaethau sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth ddarparu mannau gwasanaeth ochr ffordd.

4.12 Hedfan

Para 67
Mae hi'n aneglur paham mai'r DETR, yn hytrach na'r Cynulliad y dylid ymgynghori â hwy ar gynigion CDU yn ymwneud â meysydd awyr ac erodroms.

4.13 Asesiad Cludiant

Para 78
Dylai'r cyfarwyddyd nodi beth sy'n ffurfio datblygiad 'mawr' yn nhermau cyflwyno asesiadau (effeithiau) cludiant.

4.14 Cynlluniau Teithio

Para 84
Ni ystyrir bod geiriad y cyngor '*Gall CynlluniauTeithio gael eu paratoi gan berchenogion a gweithredwyr y datblygiadau presennol neu ddatblygiadau arfaethedig.....*' yn ddigon cryf. Os yw'r Cynulliad o ddifrif ynghylch cynhyrchu Cynlluniau Teithio yna fe ddylai fod yn ofyniad eu cynhyrchu wrth gyflwyno cais

cynllunio. Mae angen cyngor technegol pellach ynghylch yr angen am Gynlluniau Teithio, y dulliau o'r paratoi a'u cynnwys.

## 5 CASGLIAD

5.1 Mae'r Cyngor yn croesawu yn gyntaf, yr angen i symud tuag at ddatblygu cynaladwy ac i integreiddio cynllunio cludiant a defnydd tir yn fwy ac yn ail, paratoad cyfarwyddyd diwygiedig ar fater cludiant. Serch hynny, mynegir pryder ynghylch:

- amseriad a'r berthynas rhwng arolygon Polisi Cynllunio Cymru a chefnogi TAN 18 ar Gludiant.
- y berthynas ddryslyd rhwng awdurdod priffyrdd lleol ac awdurdod cynllunio lleol a'u dyletswyddau.
- diffyg cyngor technegol cynhwysfawr a chlir ynghylch agweddau allweddol ar gyflawni amcanion y Cynulliad yn nhermau cludiant.
- ymgorffori'r hyn yr ymddengys ei fod yn gyfarwyddyd polisi mewn dogfen y bwriedir iddi ddarparu cyngor yn unig.
- y pwysau ychwanegol sy'n cael ei roi ar CDUau a all eu gwneud yn ddogfennau mwy a mwy cymhleth a chymryd mwy o amser i'w paratoi a'u mabwysiadu.

## 6 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod yr adroddiad hwn i'w anfon ymlaen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel ymateb y Cyngor hwn ar ddrafft Nodyn Cyngor Technegol 18 ar Gludiant.

## ADRODDIAD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.1** Hysbysu'r Aelodau o ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Ar ôl ymgynghori â Chyfreithiol a Gweinyddol, fe benderfynwyd mai **prynhawn dydd Mercher 30ain Mai 2001** sydd fwyaf addas. Mae'r dyddiad yma wedi'i neilltuo'n amodol.

**2.2** Fe'ch hysbysir, felly y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal **Ar ddydd Mercher 30ain Mai 2001 (Prynhawn - amseroedd i'w hysbysu).**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIADAU SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1** **Bod yr Aelodau'n cytuno i'r Ymweliadau Safle gael eu cynnal ar ddydd Mercher 30ain Mai 2001**